# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl grŵp trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Mercher 6 Gorffennaf |
| **Lleoliad:** | Y Pierhead a Teams |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS dros Ogledd Cymru |
| Darren Millar (DM) | AS dros Orllewin Clwyd |
| Russell George (RG) | AS dros Sir Drefaldwyn |
| Tom Giffard (TG) | AS dros Orllewin De Cymru |
| Zak Weaver (ZW) | Staff cymorth i Sam Rowlands AS |
| Harry Saville (HS) | Staff cymorth i Sam Rowlands AS |
| Rhys Thomas (RT) | Staff cymorth i Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Stefan Ryszewski (SR) | Staff cymorth i Tom Giffard AS |
| Jena Quilter (JQ) | Staff cymorth i Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig |
| Ellie Richards (ER) | Staff cymorth i Luke Fletcher AS |
| Andrew Jenkins (AJ) | Staff cymorth i Sioned Williams AS |
| Heledd Roberts (HR) | Staff cymorth i Rhun ap Iorwerth |
| Suzy Davies (SD) | Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Barbara Griffiths (BG) | Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru |
| Adrian Barsby (AB) | Is-gadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Shoko Doherty (SD) | Prif Swyddog Gweithredol Celtic English Academy |
| Simon McGrath (SM) | Camping and Caravanning Club |
| Eirlys Jones (EJ) | Go North Wales |
| George Reid (GR) | Glangwili Mansion |
| Alistair Handyside (AH) | Cadeirydd Gweithredol, Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU |

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso a chyflwyniadau:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd fod TG wedi cyflwyno cynnig i ddirymu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022.
- Tynnodd SR sylw nad oedd y cynnig i ddirymu'n rhan o'r grŵp trawsbleidiol, y byddai'r grŵp trawsbleidiol yn siarad am eithriadau a goddefebau ynghylch y Gorchymyn, a bod y grŵp trawsbleidiol yn croesawu cefnogaeth drawsbleidiol.

Canlyniadau posibl Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022:

- Croesawodd SD y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng ail gartrefi a thwristiaeth, ond amlinellodd na fydd llawer o fusnesau'n bodloni'r rheol 182 ddiwrnod.
- Dywedodd SD fod Llywodraeth Cymru wedi dod i gasgliad, ond nad oedd wedi cyfiawnhau pam y byddai'n 182 ddiwrnod.

- Amlinellodd SD y gwnaeth Cynghrair Twristiaeth Cymru gynnig trothwy uwch na'r hyn a oedd ar waith yn wreiddiol.
- O ran y cynnig i ddirymu, dywedodd TG ein bod yn byw mewn gobaith, a bod y rheol 182 ddiwrnod yn gamarweiniol ac yn ddiffygiol.
- Roedd TG yn awyddus i wrando ar syniadau a safbwyntiau'r grŵp trawsbleidiol cyn y ddadl yn y Senedd.
- Roedd AH yn awyddus i egluro pryd y bydd y gorchymyn yn dechrau, ac a fyddai'n ôl-weithredol.
- Amlinellodd ZW fod SR wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn, ac y byddai'r llythyr hwn a'r ymateb yn cael eu dosbarthu i aelodau'r grŵp trawsbleidiol.
- Darllenodd SR y llythyr gan y Gweinidog, a thrafododd y negeseuon cyferbyniol o hyn.
- Amlinellodd AGW na fydd gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau a’r capasiti i fonitro busnesau, a bod hyn yn cael ei wthio drwodd gyda Phlaid Cymru.
- Ailadroddodd AH y byddai ailbrisio’n ddarn enfawr o waith.
- Gofynnodd SR am drafodaethau'r diwydiant â Vaughan Gething.
- Dywedodd GR ei fod wedi gofyn i Lywodraeth Cymru beth oedd y brys, ac nad yw'r Gorchymyn hwn yn adlewyrchu'r ymgynghoriad. Dywedodd GR y dylid atgoffa swyddogion Llywodraeth Cymru mai gweision cyhoeddus ydynt, ac mai hybu a chefnogi'r diwydiant yw eu gwaith hwy, nid ei ddinistrio.
- Amlinellodd SD na all Llywodraeth Cymru anwybyddu ei hymgynghoriad heb reswm.
- Dywedodd AB fod yr adborth roedd yn ei gael yn ymwneud â llesiant pobl, a bod dryswch o hyd.
- Gofynnodd SR i'r grŵp trawsbleidiol am eithriadau a goddefebau.
- Amlinellodd AH dudalen o eithriadau a goddefebau i'r grŵp trawsbleidiol, roedd y diwydiant yn galw amdanynt.
- Diolchodd SR i AH am ddangos ei ddogfen eithriadau a goddefebau, a gofynnodd a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon ar hyn.
- Dywedodd SD ac AH fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyfarfod â'r diwydiant i drafod hyn.
- Amlinellodd SD fod proses apelio ar goll.
- Cododd AB yr hyblygrwydd rhwng rhanbarthau, ac nad oedd 182 ddiwrnod ar draws Cymru gyfan yn gwneud synnwyr.
- Amlinellodd SR fod cynnig heddiw yn ymwneud â’r cynnig i ddirymu, a bod goddefebau ac eithriadau i ddod wedyn.
- Dywedodd AH fod llawer o bobl bellach yn ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a bod busnesau’n cael eu gwerthu.
- Amlinellodd SD fod gwybodaeth anghyson ym memorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru.
- Dywedodd SR fod ar y grŵp trawsbleidiol angen cynllun i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif gyda thoriad yr haf i ddod.
- Cododd TG bosibilrwydd cyfarfod â'r rhai oedd â phrofiadau go iawn o orfod gwerthu busnes.

- Amlinellodd DM yr annhegwch ynghylch llety gwyliau sydd â chyfyngiadau cynllunio yn gorfod bodloni'r rheol 182 ddiwrnod.
- Dywedodd DM fod y rheol 182 ddiwrnod yn gwbl annheg.

Casgliad a phwyntiau gweithredu:

- Gyda'r Cyfarfod Llawn yn dechrau, daeth SR â'r cyfarfod i ben.
- Diolchodd SD i bawb a oedd yn bresennol ac a gyfrannodd.